

# Gweithio am Gydraddoldeb yng Ngofal Iechyd Powys 2022-23

**Fersiwn Hawdd ei Darllen**
**o Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2022-23 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

**This is also available to read in English**

# Cynnwys

Rhif y Dudalen


**Cyflwyniad** **2**

**Am Bowys** **4**

**Beth Rydyn Ni’n Bwriadu Gwneud** **6**

**Beth Rydyn Ni Wedi Gwneud** **8**

**Beth Rydyn Ni’n Bwriadu Gwneud Nesaf** **12**

**Sut i Ddysgu Mwy** **13**

# Cyflwyniad

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn rhedeg yr ysbytai ym Mhowys.



Rydyn ni hefyd yn rhedeg rhai rhaglenni iechyd.



Mae'r gyfraith yn dweud bod rhan i ni drin pawb yn deg.



Mae teg yn golygu, dydyn ni ddim yn trin gwahanol bobl yn llai teg nag eraill.



Yr enw ar hwn yw Cydraddoldeb.




Bob blwyddyn, mae rhaid i ni greu Adroddiad Cydraddoldeb (yr un yma!).



Mae rhaid i’r Adroddiad Cydraddoldeb dweud beth rydyn ni’n gwneud i wella Cydraddoldeb.

Dyma’n ffordd ni o ddangos ein bod ni’n gweithio i gyflawni Cydraddoldeb.

# Am Bowys



Mae Powys yn ardal fawr yng Nghanolbarth Cymru.




Y trefi mwyaf ym Mhowys yw'r Drenewydd, Aberhonddu, Llandrindod ac Ystradgynlais.



Ond mae llawer o bobl ym Mhowys yn byw yn y cefn gwlad.



Mae'r ysbytai rydyn ni'n rhedeg yn fach iawn.



Mae hyn yn golygu, weithiau mae rhaid i bobl gadael Powys i gyrraedd ysbytai mawr.



Mae llawer o wahanol bobl yn byw ac yn gweithio ym Mhowys.



I gymharu â rhannau eraill Cymru, mae llawer o bobl hŷn ym Mhowys.



Mae llawer o bobl gydag anableddau hefyd ym Mhowys.



Mae hyn yn cynnwys anableddau dysgu.



Mae hefyd llai o arian gan rai pobl ym Mhowys.

# Beth rydyn ni'n bwriadu gwneud




Yn 2020 roedden ni eisiau gwneud cynllun i wella Cydraddoldeb.



Roedden ni wedi gofyn i lawer o bobl beth i roi yn ein cynllun.



Roedden ni wedi gwrando ar beth y dywedon nhw, a gwneud y cynllun.



Yr enw ar hwn oedd ein *Cynllun Cydraddoldeb Strategol.*

**2020**
**2021**
**2022**
**2023**
**2024**

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn sôn am bum mlynedd.

**1 2 3**

Yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, roedden ni wedi dweud y bydden ni'n ceisio gwneud tri pheth.



Roedden ni wedi dweud y bydden ni'n dysgu ein staff i drin pobl yn deg.



Roedden ni wedi dweud y bydden ni'n gwrando ar ein cleifion.



Roedden ni wedi dweud y bydden ni'n gwrando ar ein staff, ac yn sicrhau eu bod nhw'n hapus.

# Beth Rydyn Ni Wedi Gwneud



Roedden ni wedi sicrhau ein bod ni'n dweud wrth ein staff am gyfleoedd i ddysgu am Gydraddoldeb.




Roedden ni wedi dysgu i rai o'n staff sut i wneud pethau'n Hawdd ei Ddarllen (fel hwn!)



Roedden ni wedi dysgu ein staff sut i wirio eu bod yn deg gyda phawb.

Rydyn ni'n galw hwn yn 'Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb'!



Roedden ni wedi rhoi'r cyfle i gleifion adrodd eu stori ar beth ddigwyddodd iddyn nhw.

Roedden ni wedi helpu staff creu grwpiau i ni ddysgu sut i'w trin nhw'n well!



Roedd un o'r grwpiau i fenywod sy'n mynd drwy'r menopos.




Roedd grŵp arall ar gyfer staff ag Awtistiaeth neu ffyrdd gwahanol o edrych ar bethau.



Roedden ni wedi creu grŵp o staff sy'n siarad Cymraeg.



A grŵp arall i staff sy'n dysgu Cymraeg.



Roedden ni wedi rhoi pethau i helpu ein staff ymlacio a theimlo'n well ar-lein.



Roedden ni wedi dathlu pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thraws yn Pride!

Roedden ni wedi sefydlu ffordd newydd o helpu cleifion ar y we, o'r enw SilverCloud.



Mae SilverCloud yn helpu cleifion sy'n cael trafferth gydag iechyd meddwl.



Mae SilverCloud ar y we felly yn hawdd i lawer o bobl ei ddefnyddio, yn lle mynd i feddygfa.

Roedden ni hefyd wedi creu swyddi newydd i arbenigwyr meddygol penodol.

Mae'r swyddi hyn yn helpu mwy o bobl i gael gwasanaethau ar draws Powys.



Yn 2021, roedden ni wedi rhoi arbenigwr problemau'r cyhyrau ac esgyrn mewn meddygfa yng ngogledd Powys.



Roedd hyn wedi gweithio'n dda, ac erbyn hyn rydyn ni wedi rhoi pum arbenigwr arall mewn meddygfeydd ar draws Powys!



Rydyn ni hefyd wedi gwneud swydd newydd i Ymarferydd Anabledd Iechyd.



Mae'r swydd newydd hon yn helpu pobl ag anableddau i roi cynnig ar chwaraeon a gweithgareddau eraill yn y gymuned.

# Beth fyddwn ni'n gwneud nesaf

Blwyddyn nesaf, yn 2022-23, rydyn ni'n mynd i ganolbwyntio ar y pethau hyn:



Byddwn ni'n parhau i ddweud wrth staff am hyfforddiant, a pharhau i wneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.



Rydyn ni eisiau sicrhau bod staff yn gallu defnyddio pethau i'w helpu gyda chydraddoldeb ar y we.



Byddwn yn gwneud taflen gyda gwybodaeth ar Drawsnewid i bobl Traws.




Byddwn yn ceisio gwneud mwy o ddogfennau Hawdd ei Ddarllen (fel yr un yma!)

# Ydych chi am ddysgu mwy?

Os ydych chi eisiau dysgu mwy am Gydraddoldeb ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:



Dros e-bost:
Powys.equalityandwelsh:wales.nhs.uk




Ar ein gwefan:
https://biap.gig.cymru/